

## **Pwyllgor Cynllun Busnes**

Cofnodion Pwyllgor Cynllun Busnes gyfarfu am 7pm, nos Iau, Ionawr 19eg, 2017 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

1. Yn bresennol y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans, Cadeirydd; Marian Evans; Dafydd Williams; Ifor W Davies; Anwen Jones a'r Clerc.

2. Roedd y Pwyllgor wedi ymgynnull i drafod y gyllideb a phennu'r Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill 1af 2017 hyd ddiwedd Mawrth 2018.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Roedd y Clerc wedi anfon taflenni ymlaen llaw i aelodau'r Pwyllgor yn dangos union wariant 2016/17 hyd yma a'r gwariant tebygol o hyn tan ddiwedd Mawrth 2017. Aethpwyd drwy'r taflenni yn fanwl ac roedd modd cymharu gwariant 2016/17 gyda'r gyllideb bennwyd ar gyfer 2016/17. Rhagwelir y bydd dros £18,000- yn cael ei drosglwyddo i flwyddyn ariannol Ebrill 2017 ymlaen.

3. Yna trafodwyd cyllideb 2017/18 a phenderfynwyd argymell cadw at braesept o £15,000- ar gyfer Ebrill 2017 ymlaen gydag argymhelliad o gynnig talu am gysylltiad i'r We yn y tair canolfan y mae'r Cyngor yn cyfarfod ynddynt, sef Festri Capel Pencaenewydd, Neuadd Goffa Chwilog a Neuadd Llanystumdwy. Bydd angen talu am lenwi'r biniau halen o Hydref 2017 ymlaen a gall y Cyngor yma orfod wynebu costau etholiad sylweddol ym mis Mai 2017.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.